

Croeso i Fwletin Prosiect cyntaf 2020

Gobeithiwn eich bod wedi cael cyfnod Nadolig plerusus a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno 2020 hapus ac iach i chi. Yn ogystal â chrosawu blwyddyn newydd, rydym hefyd yn croesawu Swyddog Cyswllt Cyhoeddus newydd i'r prosiect, Georgie Davies. Mae Georgie wedi gweithio i Griffiths ers nifer o flynyddoedd a hi fydd y pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw un y mae ein gwaith yn effeithio arnynt. Gallwch gysylltu â Georgie rhwng 0830 a 1730 o ddydd Llun i ddydd Gwener dros y ffôn ar *0330 0412 183. Fel arall, gallwch ebostio Georgie: georgie.davies@alungriffiths.co.uk



Diweddariad Prosiect

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, byddwn yn parhau â'n rhaglen gynlluniedig o waith cloddio a draenio ac yn dechrau gosod arwynebau, palmantau ac ymylon yng Nghamau 1, 2 a 3. Mae'r holl waith yn amodol ar y tywydd. Rydym yn cyfateb â'n hamserlen ar hyn o bryd er mwyn cwblhau'r prosiect ar ddiwedd Mai 2020.

Cau Ffordd Dros Dro

Bwriedir cau ffordd dros dro ar Sandy Lane lle mae'n ymuno â Heol Casnewydd gan ddechrau am 09.00am ar ddydd Llun 13eg Ionawr 2020. Bydd y cau ffordd dros dro yn para am oddeutu 8 wythnos a bydd yn ein galluogi i gwblhau'r gwaith o osod pibellau, draenio, palmantu ac ailadeiladu'n ddiogel y lôn gerbydau. Bydd y cau ffordd dros dro ar sail 24 awr a bydd y llwybrau dargyfeirio wedi'u nodi'n glir. Rydym wedi cynnwys copi o'r llwybrau dargyfeiriol ar gefn y bwletin hwn. Gofynnwn i chi ystyried y penderfyniad i gau'r ffordd dros dro wrth gynllunio unrhyw deithiau.

Sesiynau Galw Heibio Cymunedol

Byddwn yn parhau i gynnal sesiynau galw heibio cymunedol bob pythefnos yn ystod mis Ionawr a Chwefror yn Llyfrgell Cil-y-coed.

Yn y sesiynau galw heibio, bydd ein Tîm Prosiect ar gael i ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon a allai fod gennych mewn perthynas â'n gwaith. Mae dyddiadau ac amseroedd y 4 sesiwn galw heibio nesaf fel a ganlyn:

Dydd Mawrth 14eg Ionawr 10am – 12pm

Dydd Mercher 29ain Ionawr 10am – 12pm

Dydd Mercher 12fed Chwefror 10am – 12pm

Dydd Mercher 26ain Chwefror 10am – 12pm

Ein Pwyllgor Achosion Da

Os ydych yn elusen neu'n sefydliad lleol sy'n chwilio am gymorth gyda menter gymunedol a fyddai o fudd i bobl leol, neu'n grŵp cymunedol sy'n codi arian ar gyfer achos da lleol, efallai y gall ein Pwyllgor Achosion Da eich cynorthwyo. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'n Swyddog Cyswllt Cyhoeddus, Georgie Davies (mae ei manylion cyswllt isod).



Gwefan a chyfrif Twitter y Prosiect

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth, newyddion am y prosiect a diweddariadau sy'n ymwneud â'r prosiect Lle Croesi Cychfan Cil-y-coed ar ein gwefan gymunedol www.community.alungriffiths.co.uk ac ar ein ffrwd Twitter [@alungriffiths](https://twitter.com/alungriffiths)

Swyddog Cyswllt Cyhoeddus: **Georgie Davies**
Rhif Ffôn : 03300 412 183
Ebost: georgie.davies@alungriffiths.co.uk



Gweithio mewn partneriaeth â
Llywodraeth Cymru
Y Gronfa Targed Buddsoddi
Working in partnership with
Welsh Government
Targeted Regeneration
Investment Fund